## P-04-561 Hyrwyddo rygbi ar lawr gwlad yng Nghymru i annog pobl i gymryd rhan

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gydweithio ag Undeb Rygbi Cymru i annog mwy o bobl, o bob oedran a rhyw, i gymryd rhan yn y gêm yng Nghymru; i annog partneriaethau â sefydliadau perthnasol eraill i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael cyfle i gymryd rhan ar lawr gwlad ac i ddangos nad yw□r gêm yn un elitaidd ond yn un sy□n agored i bawb.

Gwybodaeth ychwanegol: Nid yw gemau rygbi islaw□r lefel ranbarthol yng Nghymru yn cael fawr ddim sylw yn y cyfryngau. Gwyddom fod clybiau□n ei chael yn anodd sicrhau chwaraewyr ac arian. Bydd rhoi rhagor o sylw i□r gêm ym mhob ardal yn annog mwy o bobl o bob oedran a rhyw i gymryd rhan, boed yn ddarpar chwaraewyr neu□n gefnogwyr. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd hysbysebu i noddwyr ac felly□n ei gwneud yn haws i glybiau ddenu□r math hwn o arian.

**Prif ddeisebydd:** Inside Welsh Rugby TV

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:17** Mehefin 2014

**Nifer y llofnodion:** 334